

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Chwefror 2017 am 7pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones, Ieu Thomas

1. Ymddiheuriadau:

Cyngorydd Simon Jones

2. Datgan diddordeb:

Ni fu i unrhyw Gyngorydd ddatgan diddordeb

3. Derbyn cofnodion 16 Ionawr 2017

Trafodwyd y canlynol-

Pont-ar-Ddyfi

Dyddiad ar gyfer cyfarfod i drafod Palmentydd

PENDERFYNIAD:

I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cyngorydd Arwel Pierce yn cynnig, a'r Cyngorydd Bethan Lawton yn eilio.

I gysylltu gydag Un Llais Cymru er mwyn gofyn i Lywodraeth Cymru gylchreded llythyr neu bamffled i bob Cyngor Cymuned yn ne Meirionnydd yn egluro beth sydd yn digwydd gyda'r Pont-ar-Ddyfi arfaethedig.

I gynnig prynhawn dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017 ar ôl 2pm neu bore dydd Mercher, 1 Mawrth 2017 ar ôl 9am

4. Cyfrifon i'w talu:

Incwm:

£719.16 Dolgoch

B Gwilym	Cyflog	1015524	£160.29
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101525	£40.20
Swyddfa Archwilio	Archwiliad 15/16	101526	£250.35
Dŵr Cymru	Dŵr	101527	£97.89
Y Ganolfan	Llogi ystafell	101528	£24.00
Un Llais Cymru	Aelodaeth 17/18	101529	£107.00
Alan H. Jones	Trydan	101530	£20.00
Hefin Pugh	Cynnal a chadw	101531	£51.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

5. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2017/18:

PENDERFYNIAD: I barhau gyda'r Aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

6. Novus Energy - cronfa gymunedol:

Derbyniwyd llythyr yn dweud bod Novus Energy wedi gwerthu'r parc solar i gwmni arall.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyngor Gwynedd - Ymchwiliad Craffu Trefniadau Cynllunio Cyngor Gwynedd:

PENDERFYNIAD: I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn canfod os yw'r Cyngor yn dymuno derbyn sylwadau gan Gyngorau o fewn ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Plas Coch, Rhyd-yr-Onen (NP5/55/231A):

Y cais wedi ei ganiatáu.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o'r trefiadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd:

PENDERFYNIAD: I ohirio'r eitem am fis, gan ei gynnwys ar Agenda mis Mawrth 2017.

10. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:

- Y Pafiliwn yn iawn
- Eiddew yn tyfu ger y giât mochyn
- “Dug-outs” angen ei atgyweirio
- Pyst wedi torri
- Angen polion newydd i'r siglen

PENDERFYNIAD: I brynu polion newydd i'r siglen am £350 + TAW

11. Cae Chwarae - Clwb Pêl-droed:

Adroddwyd nad oedd y Clwb wedi penderfynu i dderbyn y cynnig parthed y mesurydd trydan.

PENDERFYNIAD:

Atgoffa'r Clwb Pêl-droed bod anfonebau i'w talu.

Ysgrifennu llythyr ar at Adran Eiddo Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn ow yw'n bosib i ddefnyddio rhan o'r cae i greu incwm.

12. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair yn 2017:

I gysylltu gyda Kevin Jones, Sean's Lawns a Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn am ddyfynbris. Gyda'r manylion isod:

- Cytundeb blwyddyn
- Torri 12 gwaith y flwyddyn (casglu gwair un waith, cyn y Carnifal)
- Torri pob man heblaw am y cae pêl-droed
- I gynnwys llun o Google Earth er mwyn dangos lleoliad a safle y cae pêl-droed

PENDERFYNIAD: I ofyn am dri ddyfynbris erbyn cyfarfod Mawrth 2017.

13. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- bod Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliad o'r "reflective bollards" ger Maes Carafanau Ynys-y-Maengwyn
- bod tyfiant yn cau'r llwybr beicio Brynchrug i Dywyn a'r tarmac yn cracio
- Argymhelliad i'r Cyngor Llawn y dylid codi'r dreth +2.8%, cynnydd oddeutu £36 i annedd ym mand D
- Arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni yn 2017/18 ond dim toriadau yn ystod 2017/18
- Balansau oddeutu £1.1 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer Ysgolion Uwchradd, lefelau balansau yn gyffredinol wedi gostwng
- Warden Cŵn wedi cerdded y pentref
- Nifer o bosteri o gwmpas y pentref, medr mynd ar ôl yr unigolyn sydd yn rhoi'r posteri i fyny ond dim y busnes neu gwmini
- Cyfarfod Blyneddol Pwyllgor Ysbyty Tywyn a'r Cylch yn cael ei gynnal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

14. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddodd y Cynghorydd Ieu Thomas nad oedd yn dymuno mynychu Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru.

PENDERFYNIAD: I gysylltu gydag Un Llais Cymru er mwyn tynnu Cynghorydd fel cynrychiolydd y Cyngor. I benderfynu pwy fydd cynrychiolydd y Cyngor yng nghyfarfod blyneddol y Cyngor ym mis Mai 2017

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:10pm

Llofnod y Cadeirydd